Comisiwn Bevan Commission



# Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd

## Adroddiad Terfynol

Ionawr 2025

# Rhagair

*Gan ystyried yr heriau economaidd ac amgylcheddol sylweddol, nid oes esgus am beidio â lleihau gwastraff - yn ei **holl** ffurfiau. Mae rhwng 20% a 30% o'r adnoddau mewn iechyd a gofal yn cael eu gwastraffu, nid yw hyn yn dderbyniol. Yng Nghymru yn unig, rydym yn gwario £8.7bn ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol bob blwyddyn - drwy gael gwared â gwastraff diangen, byddai modd ailddosbarthu £1.7 - £2.6bn i helpu i wella a chynnal gwasanaethau. Felly, mae gennym gyfrifoldeb moesol a moesegol i sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio mewn modd darbodus i gyflawni'r gwerth gorau, i fod yn fwy cynhyrchiol, effeithlon a chyfrifol yn amgylcheddol, ac i wastraffu llai.*

*Mae ein gwaith ar 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' wedi adeiladu ar gyhoeddiad Comisiwn Bevan, 'What a Waste!' a elwodd o wybodaeth arbenigwyr rhyngwladol yn y maes hwn. Gwnaeth y papur hwn adolygu'r dystiolaeth a gosod fframwaith i helpu i adnabod gwastraff yn ei gyd-destun ehangach, gan gynnwys yn y gweithlu, ym meysydd gweinyddiaeth, gwasanaethau, triniaeth, ynni a systemau.*

*Mae Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd wedi tynnu sylw at enghreifftiau ymarferol, megis apwyntiadau, triniaethau, cyffuriau, cyfarpar a thanwydd sy'n cael eu gwastraffu, yn ogystal ag amser ac arbenigedd. Dyma ddechrau taith i helpu i godi ymwybyddiaeth a thaflu goleuni ar wastraff er mwyn helpu i annog a chefnogi newidiadau mewn iechyd a gofal. Mae'n daith y bydd rhaid iddi barhau a chynnwys pawb - y rhai sy'n gweithio yn y system a'r rhai sy'n ei defnyddio - i wneud gwahaniaeth go iawn. Mae'r gwaith a wnaed drwy 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' wedi helpu i ddechrau codi ymwybyddiaeth, dod â thystiolaeth ehangach ac astudiaethau achos ynghyd, profi a chefnogi ymagweddau newydd, datblygu offer i'w defnyddio'n ehangach a dehongli'r data i help i fonitro a gwerthuso'r effaith. Gyda mwy o amser, gallem fod wedi pennu gwaelodlinau cadarn ac asesu effaith ehangach datblygiadau. Ni all hyn ddod i ben yma.*

*Rydym wedi dysgu nad yw gwastraff bob amser yn weledol nac yn amlwg, ac yn aml mae'n rhan annatod o'r ffordd rydym yn gweithio ac yn gwneud pethau o ddydd i ddydd yn ddifeddwl yn aml. Nid oes gennym ddewis ond newid sut rydym yn meddwl ac yn gweithio i sicrhau bod gennym system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n addas at y dyfodol. Gobeithiwn y bydd y gwaith a wnaed hyd yn hyn yn helpu i sbarduno gweithredu pellach - gan barhau i ddatblygu, addysgu ac ysbrydoli pawb yng Nghymru i gael effaith ar leihau gwastraff yn ei holl ffurfiau ym myd iechyd a gofal yng Nghymru.*

*Mae gwastraff yn gyfrifoldeb pawb - ac mae angen i **ni i gyd** wneud ein rhan yn hyn!*

**Dr Helen Howson**
Cyfarwyddwr Comisiwn Bevan

**Athro Barwnes Ilora Finlay**
Cadeirydd Comisiwn Bevan

Dyfynnu fel: Comisiwn Bevan 2025

# CYNNWYS

# 00

1. Cyflwyniad - Yr Achos yn Erbyn Gwastraff **01**

2. Crynodeb o'r Rhaglen **03**

3. Trosolwg o Allbynnau'r Rhaglen **05**

4. Datblygiadau Arloesol eraill ym maes Gwastraff **13**

5. Gwerthuso drwy Ymchwilio **18**

6. Cyfleoedd a Heriau'r Rhaglen **22**

7. Canfyddiadau Allweddol y Rhaglen **26**

8. Casgliadau **28**

Atodiad **30**

# 1. Cyflwyniad - Yr Achos yn Erbyn Gwastraff

Gan adeiladu ar Iechyd a Gofal Darbodus, mae Comisiwn Bevan wedi canolbwyntio ar wastraff yn ei holl ffurfiau, fel y nodwyd yn ei gyhoeddiad 'What a Waste!' a dynnodd sylw at **rhwng 20% a 30% o wastraff yn y system iechyd a gofal**. I helpu i systemu'r heriau sydd ynghlwm wrth wastraff mewn iechyd a gofal, nododd 'What a Waste!' chwe phrif faes, gan gynnwys pob agwedd ar reoli adnoddau mewn ffordd wastraffus.

- Gweithlu
- Gweinyddiaeth
- Gwasanaethau
- Triniaeth
- Ynni
- Systemau

Yn 2022, cyflwynodd Comisiwn Bevan gynnig i Lywodraeth Cymru i sefydlu **rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'** er mwyn helpu i droi canfyddiadau 'What a Waste!' yn gamau gweithredu. Yr uchelgais oedd codi ymwybyddiaeth, cynyddu ymgysylltu, a chefnogi gweithgareddau i fynd i'r afael â gwastraff drwy ddatblygu offer ymarferol ac astudiaethau achos.

Un o nodau arall y rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' oedd gweithio tuag at y nodau strategol allweddol a amlinellwyd yng Nghynllun Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mentrau sy'n canolbwyntio ar wastraff a datgarboneiddio.[1] Yn benodol, ei nod oedd cyflawni yn y meysydd canlynol:

→ **Menter 45:** Datblygu menter plastigion mewn gofal iechyd i fynd i'r afael â gwastraff cyfarpar diogelu personol, plastigion untro a phecynnu.

→ **Menter 44:** Cefnogi datblygiad arweiniad arfer gorau i leihau gwastraff fferyllol.

→ **Menter 39** Annog arfer gofal iechyd cynaliadwy a hyrwyddo effeithlonrwydd o ran gwastraff ac ymddygiad carbon isel ymhlith staff a chleifion.

1 Strategaeth Mwy nag Ailgylchu a Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2.

Mae'r rhaglen yn cydweddu â'r Mentrau Hinsawdd ac Iechyd Rhyngwladol ac arferion gorau a pholisi sefydledig[2,3,4,5] sy'n mynd i'r afael ag allyriadau drwy ddefnydd effeithlon o sgiliau ac adnoddau. Mae'r GIG yn cyfrannu tua 4% i 5% o holl allyriadau carbon y DU[6], sy'n golygu bod lleihau gwastraff yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol ac ariannol.

Dylanwadwyd ar 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' hefyd gan farn y cyhoedd a gasglwyd drwy ei fenter 'Sgwrs â'r Cyhoedd'[7] . Yn yr arolwg cenedlaethol hwn, ymgynghorwyd â thros 2,200 o unigolion, gan ddatgelu cefnogaeth helaeth ymhlith y cyhoedd am leihau gwastraff mewn gofal iechyd.

# 1.1 Nodau ac Amcanion

**Prif nod** y rhaglen oedd **cynyddu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth** o wastraff mewn iechyd a gofal. Cefnogwyd hyn gan yr amcanion canlynol:

- Ymgysylltu â chyfres eang o bartneriaid allweddol a rhanddeiliaid
- Datblygu rhwydwaith cydweithredol a mudiad ehangach ar gyfer newid
- Codi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli newid diwylliannol
- Rhannu syniadau a chefnogi Mabwysiadu a Lledaenu systematig ffyrdd newydd o weithio
- Dangos arfer doeth a buddion cynaliadwy ehangach
- Dangos effaith fesuradwy ar leihau gwastraff ar draws 6 maes allweddol, yn unol â mentrau perthnasol Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru
- Monitro a gwerthuso effaith, canlyniadau a dysgu i lywio polisi ac arfer yn y dyfodol

2 Rhaglen Iechyd COP26.

3 Menter Race to Zero y CU.

4 HCWH – Reducing Plastics in Healthcare.

5 Sefydliad Iechyd y Byd – Healthcare Waste in the Context of COVID-19.

6 Climate Change and Sustainability. The health service and net zero, British Medical Association 2020.

7 Comisiwn Bevan 2024. Adroddiad ar Sgyrsiau â'r Cyhoedd.

# 2. Crynodeb o'r Rhaglen

Roedd apelio at galonnau a meddyliau pobl i'w hannog i ymrwymo i'r agenda gwastraff yn allweddol i sbarduno'r broses o droi polisi yn ymarfer. Drwy enw da a chredadwyaeth Comisiwn Bevan, llwyddodd y rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' i gyrraedd a chynnwys amrywiaeth eang o unigolion a gweithwyr proffesiynol ar nifer o lefelau ac mewn amrywiaeth o feysydd arbenigol a sefydliadau, â'r nod o helpu i ysgogi newid yn y sectorau iechyd a gofal.

Cyflawnodd hyn drwy amrywiaeth o ymagweddau:

- Annog unigolion a sefydliadau i weithredu a llofnodi'r addewid 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'
- Gweithio gyda phobl mewn gweithgorau i nodi blaenoriaethau a llywio camau gweithredu
- Datblygu offer ac adnoddau
- Coladu tystiolaeth a llunio astudiaethau achos
- Casglu data a gwybodaeth waelodlin
- Treialu a phrofi ffyrdd newydd o weithio

Roedd partneriaethau cryf a chydweithredu rhwng y rhanddeiliaid hyn yn allweddol hefyd. Targedodd y rhaglen grwpiau penodol megis aelodau o Uwch-dimau Gweithredol Byrddau Iechyd, Cyfarwyddwyr Cynllunio, Cyllid a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol ar bob lefel, â'r nod o gyrraedd y nifer uchaf posib o bobl a sicrhau bod y negeseuon a'r wybodaeth allweddol yn cael eu lledaenu a'u trafod yn effeithiol.

Canolbwyntiodd y rhaglen ar ddatblygu rhwydweithiau a chodi ymwybyddiaeth ynghyd â galwad i weithredu. Yn y digwyddiad cyntaf, cyflwynwyd y broblem i'r rhanddeiliaid a lansiwyd yr addewid 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' sydd â rôl allweddol wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Rôl y Grŵp Llywio oedd goruchwylio'r broses o roi'r rhaglen ar waith, cefnogi a dilysu allbynnu o gasglu data a hwyluso ymrwymiad i newid mewn iechyd a gofal.

Sefydlwyd **chwe gweithgor** yn seiliedig ar chwe maes WASTES[8], a oedd yn cynnwys dros 80 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Y nod oedd cysylltu ag ymgysylltu ag unigolion allweddol gan eu gwahodd i rannu gwybodaeth am arfer gorau, nodi ffynonellau gwastraff a nodi rhwystrau a galluogwyr newid. Cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, a deilliodd nifer o ddarnau allweddol o waith o'r rhain.

Cafodd astudiaethau achos a ffynonellau data eu hadolygu a'u datblygu i greu allbynnau mesuradwy/diriaethol. Cynhaliwyd Dosbarth Meistr Gwastraff ar gyfer swyddogion gweithredol byrddau iechyd ym mis Ebrill a'r nod oedd annog newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a sicrhau ymrwymiad hirdymor.



8 Gweithlu, Gweinyddiaeth, Gwasanaethau, Triniaeth, Ynni, Systemau

# 3. Trosolwg o Allbynnau'r Rhaglen

## 3.1 Cyhoeddiadau, Offer ac Adnoddau 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'

### Mapio Rhanddeiliaid

→ **Map o Randdeiliaid**
Map rhyngweithiol yn cynnwys yr holl wybodaeth gysylltu, wedi'i chategoreiddio fesul sefydliad/proffesiwn.

### Set o Astudiaethau Achos

→ **Astudiaethau Achos Rhyngwladol**
Yn darparu gwybodaeth am fentrau byd-eang i leihau gwastraff, gan arddangos arferion gorau y gellir eu mabwysiadu a'u haddasu yn system gofal iechyd Cymru.

→ **Astudiaethau Achos Cymru Gyfan**
Yn tynnu sylw at brosiectau cynaliadwyedd llwyddiannus yng Nghymru, gan gynnig enghreifftiau manwl o sut mae ymdrechion lleihau gwastraff wedi cael eu rhoi ar waith a'u mabwysiadu ar raddfa ehangach mewn byrddau iechyd.

### Adolygu Data am Wastraff

→ **Unpacking Waste Data in Healthcare - The Case for Wales**
Mae'n archwilio'r heriau a'r cyfleoedd wrth ddod o hyd i ddata am wastraff mewn gofal iechyd a'i ddefnyddio, gan gynnig ffyrdd mwy effeithiol o reoli data.

→ **Measuring Waste in Healthcare – Guideline to Baselines and Indicators**
Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnig arweiniad cynhwysfawr i greu gwaelodlinau data a dangosyddion ar gyfer mesur gwastraff mewn lleoliadau gofal iechyd, gan ddarparu fframwaith ar gyfer dulliau cyson o gasglu a gwerthuso data.

**Adroddiad am y Dosbarth Meistr Gwastraff – yr Athro Don Berwick**

→ Adroddiad ar wersi o ddosbarth meistr dan arweiniad yr Athro Don Berwick, a ganolbwyntiodd ar strategaethau ar gyfer lleihau gwastraff mewn gofal iechyd drwy arweinyddiaeth ac arloesi.

**Reducing Waste in Health and Care Masterclass – Insights from Senior Leadership**

→ Mae'n cofnodi safbwyntiau uwch-arweinwyr gofal iechyd ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â lleihau gwastraff, gan gynnwys argymhellion y gellir eu rhoi ar waith i'r GIG.

## Pecynnau Cymorth ac Adnoddau

**Pecyn Cymorth Newid Ymddygiad Plastigion Untro**

→ Pecyn cymorth sy'n canolbwyntio ar leihau plastigion untro mewn gofal iechyd, gan gynnig strategaethau ac adnoddau i hyrwyddo arferion cynaliadwy a lleihau dibyniaeth ar blastig.

**Pecyn Cymorth Newid Ymddygiad (Generig)**

→ Pecyn cymorth amlbwrpas sy'n darparu canllawiau i ysgogi newid ymddygiadol mewn gofal iechyd. Gellir ei addasu i amrywiaeth o fentrau cynaliadwyedd.

**Pecyn Cymorth Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd**

→ Pecyn cymorth â'r nod o wella cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau cymryd meddyginiaethau a lleihau gwastraff fferyllol, gan gynnig adnoddau ymarferol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd. Mae'n mabwysiadu ymagwedd hyfforddi'r hyfforddwr i roi i staff y sgiliau i rannu arferion gorau ag eraill.

**Pecyn Cymorth Lleihau Bagiau Plastig**

→ Pecyn cymorth a ddatblygwyd i leihau'r defnydd o fagiau plastig mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'n darparu canllawiau i weithredu, arferion gorau ac argymhellion ar gyfer lleihau dibyniaeth ar fagiau plastig.

→ **Adnodd Ailgylchu ac Ailddefnyddio Cymhorthion Symudedd**

Mae'r fenter 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' wedi cydweithio â phartneriaid allweddol i gynhyrchu adnodd sydd â'r nod o hyrwyddo ailgylchu ac ailddefnyddio cymhorthion symudedd ar ôl adferiad cleifion.

# 3.2 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Rhwydweithiau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **In-person** | **23** Sefydliadau wedi'u Cynrychioli | **320** Cyfanswm Addewidion | **600+** Mynychwyr Digwyddiadau |
| **Digital** | **15.6k** E-byst wedi'u hanfon | **20k+** Ymgysylltiadau Cyfryngau Cymdeithasol | **2.3k+** Ymwelwyr Gwefan |

Drwy amrywiaeth o ddulliau ac ymagweddau bu'r rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' yn ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth o randdeiliaid yn y sector iechyd a gofal. Llofnodwyd yr addewid gan dros **320** o unigolion, gan gynrychioli **23** sefydliadau sydd, gyda'i gilydd, yn cyflogi dros **35,000** o aelodau staff yng Nghymru.

Mae'r rhaglen wedi cyrraedd cynulleidfa eang drwy ddigwyddiadau amrywiol, gan gynnwys y gynhadledd GIG 75 a Dosbarth Meistr gyda Don Berwick, a ddenodd dros **600** o gyfranogwyr.

Cysylltwyd â chynulleidfa sylweddol drwy ddulliau digidol hefyd. Anfonwyd **15,661** o e-byst at dros **3,000** o unigolion, cafwyd dros 20,000 o ymgysylltiadau yn y cyfryngau cymdeithasol a **2,300** o ymweliadau â thudalennau gwe 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'.

Yn ogystal, cafwyd sylw i fentrau 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' ar wefannau newyddion cenedlaethol, gan gynnwys Wales247.co.uk, Iechyd Gwyrdd Cymru a Western Telegraph.

# 3.2 Sgwrs â'r Cyhoedd

Er mwyn creu darlun o ymwybyddiaeth y cyhoedd a'u barn am wastraff mewn iechyd a gofal, arolygwyd sampl gynrychioladol yng Nghymru ym mis Mehefin 2023.

| | |
|---|---|
| **68%** | o'r ymatebwyr, y budd mwyaf o leiaf gwastraff fyddai sicrhau bod y sector iechyd a gofal yn addas at y dyfodol, ac roedd **57%** o'r farn y byddai'n creu gwasanaeth mwy effeithlon. |
| **83%** | o'r ymatebwyr (gyda bron **60%** yn cytuno'n gryf) â'r datganiad: "Mae lleihau gwastraff yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn angenrheidiol i greu dyfodol amgylcheddol cynaliadwy." |
| **41%** | y **prosesau gweinyddol** oedd y rhwystrau mwyaf i leihau gwastraff mewn iechyd a gofal, ac mae **42%** o'r ymatebwyr o'r farn y dylid blaenoriaethu **cael gwared â thasgau diangen** neu fiwrocratiaeth. |
| **42%** | **hen adeiladau** yw'r rhwystrau mwyaf i leihau gwastraff mewn iechyd a gofal, ac mae **43%** o'r farn y dylid blaenoriaethu **gwella effeithlonrwydd** ynni mewn ymdrechion i leihau gwastraff. |
| **50%*** | o'r ymatebwyr o'r farn mai **diffyg staff a phwysau ariannol** yw'r rhwystrau mwyaf i leihau gwastraff yn y sector iechyd a gofal. |
| **40%** | o'r farn bod **apwyntiadau sy'n cael eu colli** yn rhan o'r broblem; mae 23% o'r farn y dylid blaenoriaethu lleihau nifer y presgripsiynau diangen i leihau gwastraff mewn iechyd a gofal a byddai 13% yn osgoi profion/ymchwiliadau diangen. |

* tua

# 3.4 Data am Wastraff mewn Gofal Iechyd

Roedd sefydlu gwaelodlinau data ar gyfer mesur effaith a chynnydd yn rhan hanfodol o'r rhaglen. Fel rhan o lywio'r strategaeth werthuso, nododd y rhaglen fylchau sylweddol o ran data a heriau ynghylch cysondeb a mynediad at ddata am wastraff. Amlinellwyd hyn yn yr adroddiad *Unpacking Waste Data in Healthcare*[9] ac yn y cyhoeddiad *Measuring Waste in Healthcare – Guideline to Baselines and Indicators*[10].

Dyma rai o'r pwyntiau allweddol:

- Mae'n anodd sefydlu gwaelodlinau cyson at ddiben cymharu oherwydd anghysondebau yn argaeledd a hygyrchedd data am wastraff ledled Cymru.
- Yn aml mae'r data sydd ar gael yn anghyflawn neu nid yw'n gyfredol ac nid yw wedi'i gyflwyno'n gyson ar lefel Cymru gyfan.
- Roedd mynediad at rai mathau o ddata yn gyfyngedig oherwydd cyfrinachedd a chyfyngiadau ar adrodd yn gyhoeddus.
- Ceir diffyg safoni o ran ffyrdd o adrodd ar ddata am wastraff, gan gymhlethu ymdrechion i gydgrynhoi a chymharu data ar draws rhanbarthau neu sefydliadau.
- Ceir diffyg astudiaethau sy'n olrhain effeithiolrwydd mentrau lleihau gwastraff dros amser.
- Diffyg dealltwriaeth o sut mae ymddygiadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y cyhoedd a/neu gleifion yn cyfrannu at gynhyrchu gwastraff.

9 Comisiwn Bevan 2024, Unpacking Waste Data in Healthcare.

10 Comisiwn Bevan - Measuring Waste in Healthcare – Guideline to Baselines and Indicators, (2024)

# 3.5 Hyrwyddwr Deintyddiaeth Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd (Cynaliadwyedd)

Penododd Ysgol Deintyddiaeth Prifysgol Caerdydd 'Hyrwyddwr Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd (Cynaliadwyedd)' i ysgogi mentrau lleihau gwastraff a chynaliadwyedd ym mhob agwedd ar weithrediadau.  Fel rhan o'i rôl, mae'r Hyrwyddwr yn arwain y cynllunio strategol, gan gydweithredu ar fentrau lleihau gwastraff a hyrwyddo darbodaeth ac effeithlonrwydd.  Mae wedi llwyddo i ymuno â'r alwad newydd am Esiamplwyr Bevan.

# 3.6 Rhaglen Arloesi Esiamplwyr Bevan

Mae Esiamplwyr Bevan yn weithwyr iechyd a gofal o bob cwr o Gymru sy'n cael eu cefnogi gan Gomisiwn Bevan i ddatblygu a phrofi eu syniadau arloesol dros gyfnod o 12 mis.  Mae rhaglen Esiamplwyr Bevan ar agor i unrhyw un sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, mewn llywodraeth leol neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Cefnogir Rhaglen Esiamplwyr Bevan yn garedig gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar draws Cymru.

Gwnaeth carfan 8 y rhaglen Esiamplwyr wahodd prosiectau â ffocws ar **leihau gwastraff ac effeithlonrwydd**, gan greu modelau y gellir eu cyflwyno ar raddfa ledled y GIG yng Nghymru. Ceir cyfle i gynnwys y potensial i fabwysiadu'r rhaglenni hyn yn helaeth drwy raglen Mabwysiadu a Lledaenu y Comisiwn[11].

Mae'r prosiectau Esiamplwyr canlynol yn mynd i'r afael â gwastraff ac aneffeithlonrwydd:

11 Comisiwn Bevan - [Rhaglen Mabwysiadu a Lledaenu](#) (2022)

1. Gwasanaeth newydd i leihau presgripsiynau am opioidau a gwella gofal i gleifion ar gyfer Poen Parhaus mewn Gofal Sylfaenol yn Red Kite Health Solutions CIC ym Mhowys.
2. Mae'r Gwasanaeth Tawelyddu a Chanolfan Hyfforddi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn datblygu gwasanaeth tawelyddu y gellir ei gyflwyno ar raddfa ehangach, ar sail model sydd wedi'i ddylunio i'w ledaenu i fyrddau iechyd eraill.
3. Mae OPAT Batch Manufacturing yn brosiect ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â'r nod o safoni gweithgynhyrchu dyfeisiau OPAT ar y safle gan leihau costau a gwella gofal, â photensial i fabwysiadu'r model yn ehangach.
4. Mae Ymddiriedolaeth y GIG Felindre yn galluogi cleifion â hemocromatedd i roi gwaed i'w drallwyso, gan helpu i leihau gwastraff a chefnogi cyflenwadau gwaed i'r GIG yng Nghymru.
5. Cyflwynir gwasanaethau gynaecoleg gwell gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yng nghefn gwlad Cymru, gan leihau pellterau teithio cleifion ac amserau aros a gwella gofal mewn cymunedau lleol.
6. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu model llawdriniaeth i gleifion allanol er mwyn lleihau gwastraff o lawdriniaethau trawma orthopedig, gan wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd mewn llawdriniaethau.
7. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn rhoi egwyddorion Un Iechyd ar waith er mwyn lleihau gwastraff fferyllol a gofal iechyd, â'r nod o greu amgylchedd gofal iechyd mwy cynaliadwy.
8. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi rhoi ymagwedd clwstwr ar waith er mwyn cysoni meddyginiaethau ar ôl rhyddhau o'r ysbyty, gan wella diogelwch cleifion a lleihau gwastraff meddyginiaethau.
9. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gwella rheolaeth asthma mewn ysgolion yn Sir Benfro, gan ddarparu gofal gwell i blant a lleihau derbyniadau i'r ysbyty oherwydd asthma.
10. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn symleiddio'r broses meddyginiaethau, o dderbyn y claf i'r ysbyty i'w ryddhau, gan wella diogelwch cleifion a lleihau gwastraff meddyginiaethau ym mhob rhan o'r llwybr gofal.

# 3.6.1 Enillydd Gwobr Arloeswr Syr Mansel Aylward

**Prosiect Esiamplwr: Lleihau Ôl Troed Carbon mewn Llawfeddygaeth Twnnel y Carpws**


Nod y Prosiect Gwella Ansawdd hwn oedd amcangyfrif ôl-troed carbon mewn llawfeddygaeth rhyddhau twnnel y carpws a'i leihau drwy fabwysiadu egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy. Aeth y prosiect ati i fapio ôl-troed carbon llawdriniaeth CTR safonol a'i leihau drwy drefnu'r theatr ar sail egwyddorion 'darbodus a gwyrdd'. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio hambyrddau llawfeddygol â llai o offer, defnyddio llai o eitemau untro ac asesu costau ariannol llwybrau traddodiadol a chynaliadwy.

**Canlyniadau'r Prosiect:**

- Cafodd 43 o gleifion eu trin rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2021.
- Lleihawyd yr ôl troed carbon 80% (arbedwyd 22.14 kg o CO2 ym mhob achos).
- Arbedwyd £34.72 gyda phob llawdriniaeth.
- Ni nodwyd unrhyw gymhlethdodau.

**Rhagamcan o'r Effaith ar gyfer y DU:**

- Amgylcheddol: Arbedion blynyddol o 12 tunnell o CO2.
- Ariannol: Arbedion o £1.33 miliwn o ran costau
- Cymdeithasol: Arosiadau byrrach yn yr ysbyty ac arbedion anuniongyrchol drwy ddefnyddio llai o ynni mewn adeiladau ysbytai.




**66% arbedion staff**

**50% llai o apwyntiadau**

**80% arbedion CO2**

**66% llai o wastraff clinigol**

**65% arbedion ariannol (ystafell MOPS)**

**Llinell gymorth cleifion; Dim cymhlethdodau**

# 4. Datblygiadau Arloesol eraill ym maes Gwastraff

Fel ran o'r rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' gwnaethom **ddatblygu amrywiaeth o offer** a mentrau mewn ymateb i adborth gan bobl ac mewn cydweithrediad â'r gweithgorau.  Gwnaethom hefyd ddod â **modelau llwyddiannus ynghyd a'u cefnogi** â'r nod o hyrwyddo cynaliadwyedd, lleihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru. Disgrifir y rhain isod.

## 4.1 Pecyn(nau) Cymorth Newid Ymddygiad

Cynlluniwyd yr adnoddau hyn i annog meddylfryd rhagweithiol am ffrydiau gwastraff a chynaliadwyedd yn y gweithlu. Mae'r **Pecyn Cymorth Plastigion Untro** wedi'i gwblhau (manylion isod), **pecyn cymorth generig** y gellir ei addasu at ddibenion lleihau gwastraff amrywiol, pecyn cymorth **Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd**; a phecyn cymorth **Lleihau Bagiau Plastig mewn Fferylliaeth**, i gyd â'r nod o fynd i'r afael â defnydd gwastraffus.

Mae'r pecynnau cymorth hyn yn cynnwys canllawiau clir ynghylch eu dibenion ac maent yn pwysleisio pwysigrwydd ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau. Maent yn cynnig camau ymarferol i integreiddio'r arferion hyn yn y gweithle, gan ddefnyddio posteri, negeseuon allweddol a strategaethau penodol i hyrwyddo cynaliadwyedd. Maent wedi'u cynllunio i roi enghreifftiau ymarferol o fentrau lleihau gwastraff i staff gofal iechyd, ynghyd ag arweiniad fesul cam i roi'r rhain ar waith mewn lleoliadau amrywiol, gan eu galluogi i gynnwys camau gweithredu sy'n lleihau gwastraff yn uniongyrchol yn eu rolau.

**Pecyn Cymorth Plastigion Untro:** Gan adeiladu ar lwyddiant ymgyrch 'Gloves Off' GIG Lloegr, a lwyddodd i haneru defnydd o fenig yn Ysbyty Great Ormond Street yn 2019 gan arbed £90,000[12], lansiodd Comisiwn Bevan y **Pecyn Cymorth Plastigion Untro**. Cafodd y pecyn cymorth hwn ei dreialu drwy'r sesiynau **Hyfforddi'r Hyfforddwr** a arweiniwyd gan Nyrs Arwain Cynaliadwyedd o Goleg Brenhinol y Nyrsys, gan ymgysylltu'n llwyddiannus â mwy na 200 o gyfranogwyr.

Cafodd yr hyfforddiant ymateb hynod dda gan arweinwyr newid a grwpiau rheolwyr. Croesawyd y posteri a'r sloganau a ddosbarthwyd fel rhan o'r pecyn cymorth am ddarparu negeseuon clir a chofiadwy.

12 NHS England – Greener NHS: Reducing Single Use Plastics Case Study.

***Mae'r Pecyn Cymorth Newid Ymddygiad gan y rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' wedi bod yn allweddol wrth newid meddylfryd staff y GIG tuag at egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy. Mae'n cynnig camau ymarferol i sefydliadau gyflawni hyn ac mae wedi chwarae rôl allweddol yn y sesiynau addysg rydw i wedi'u cynnal yn y GIG yng Nghymru.***

**Rhys Roberts (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Gofal Sylfaenol ac yn y Gymuned)**

# 4.2 Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd

Wedi'i chreu a'i harloesi'n wreiddiol fel prosiect Esiamplwr Bevan, canolbwyntiodd y fenter 'Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd' ar wella cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau cymryd meddyginiaethau a lleihau gwastraff yn y GIG. Gweithiodd Comisiwn Bevan gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo arferion cynaliadwy a lleihau gwastraff, gan ymgorffori egwyddorion newid ymddygiad i gefnogi nodau cenedlaethol ar gyfer mynd i'r afael â gwastraff a gwella effeithlonrwydd gofal iechyd.  Mae Bwrdd Strategol 'Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd' wedi cael ei sefydlu a chaiff ei reoli gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan a fydd yn datblygu'r strategaeth ymhellach ac yn cynghori ar ymgyrchoedd cenedlaethol.

# 4.3 Adnodd Ailgylchu/Ailddefnyddio Cymhorthion Symudedd

Bu'r fenter 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' yn cydweithredu â phartneriaid allweddol i greu adnodd a fyddai'n ganllaw i hyrwyddo ailgylchu ac ailddefnyddio cymhorthion symudedd ar ôl i iechyd y claf adfer. Gan adeiladu ar fodelau llwyddiannus sydd eisoes ar waith (isod), datblygodd Comisiwn Bevan astudiaeth achos a chanllaw a ddosbarthwyd ar draws rhwydweithiau er mwyn annog pobl i fabwysiadu'r arferion hyn yn ehangach yng Nghymru. Mae'r adnodd hwn yn cefnogi wrth ledaenu'r modelau effeithiol hyn, a nodwyd gan y gweithgor, ac yn ysgogi ymagweddau mwy cynaliadwy at reoli cymhorthion symudedd.

## 4.3.1 Modelau sydd eisoes ar waith

Mewn partneriaeth â Charchardai a Gwasanaeth Prawf EF, llwyddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i adnewyddu dros 9,000 o gymhorthion cerdded rhwng 2018 a 2022, gan arbed mwy na £90,000. Yn 2023, gwnaeth eu cynllun ailddefnyddio arbed £30,000 ychwanegol mewn chwe mis drwy gyflawni cyfradd ddychwelyd o 50% ar gyfer cymhorthion cerdded.

Cydweithredodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan â Medequip i ailgylchu ac ailddefnyddio cymhorthion cerdded drwy'r Cynllun 'Atgyweirio, Cynnal a Chadw ac Ailgylchu'. Rhwng 2021 a 2023, ailgylchwyd 12,303 o gymhorthion cerdded ganddynt, gan gael gwared â 578 o gymhorthion yn unig.

> ***Mae'r ymgyrch 'Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd' yn helpu'r cyhoedd i ddeall eu meddyginiaethau yn well ac felly gwella cydymffurfiaeth. Mae hyn yn cadw cleifion yn iach yn hirach ac yn lleihau gwastraff meddyginiaethau. Mae'r Comisiwn wedi fy helpu i ddatblygu 'Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd' o gefn mat cwrw i lefel genedlaethol ac, wrth wneud hyn, maen nhw wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at iechyd y genedl.***
>
> **Martin Davies (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Uned Cefnogi Meddyginiaethau yn y Gymuned. Fferylliaeth)**

# 4.4 Offeryn Ôl Troed Carbon Meddygon Teulu

Cafodd Offeryn Ôl Troed Carbon SEE Sustainability[13,14], ei dreialu ym Meddygfa Ffordd y Brenin yn Abertawe, lle darparodd wybodaeth werthfawr am yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag agweddau anghlinigol ar ddarparu gofal iechyd. Drwy broses strwythuredig, treuliodd staff y feddygfa dros 32 awr yn casglu data am ddefnydd o ynni, caffael a theithio staff.

Dangosodd yr offeryn fod ôl troed carbon teithio cleifion a staff **ddengwaith yn fwy** na'r ôl troed o wastraff anghlinigol. O ganlyniad, mae cynlluniau ar y gweill i addasu'r offeryn hwn er mwyn hwyluso cydweithrediadau eraill (e.e. â deintyddfeydd) a lledaenu arferion cynaliadwyedd ledled Cymru. Lluniwyd astudiaeth achos i dangos effaith ac i annog pobl i'w fabwysiadu'n ehangach.

> ***Mae offeryn ôl troed carbon SEE Sustainability yn rhoi syniad llawer gwell i ni o olion traed yr agweddau nad ydynt yn ffarmacolegol ar sut rydyn ni'n darparu gofal... Heb gymorth Comisiwn Bevan, fydden ni ddim wedi gwneud yr ymdrech i ddefnyddio'r offeryn hwn... Y cam nesaf i ni yw ystyried sut gallwn helpu i ledaenu'r syniadau hyn ledled Cymru mewn cydweithrediad â Chomisiwn Bevan.***
>
> **Richard Thomas, Meddyg Teulu, Meddygfa Ffordd y Brenin, Abertawe, ac Arweinydd Cynaliadwyedd WMC.**

13 SEE Sustainability

14 SEE Sustainability – Offeryn Ôl Troed Carbon

# 5. Gwerthuso drwy Ymchwilio

Yn ogystal â gwerthuso effaith yr allbynnau unigol a nodwyd uchod, bu'r rhaglen hefyd yn casglu adborth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a lofnododd yr addewid, gweithgorau a rhwydweithiau ehangach a phartneriaid a oedd yn rhan o'r rhaglen. Drwy gyfweliadau ac arolygon, aethom ati i asesu dylanwad y rhaglen ar eu ffordd o feddwl a'u harferion, gan helpu i ddeall yn well ei heffaith ehangach ar draws y sector gofal iechyd.

## 5.1 Cyfweliadau â Rhanddeiliaid

Cyfwelwyd â gweithwyr proffesiynol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd, gan gynrychioli amrywiaeth o broffesiynau, gan gynnwys deintyddion, arweinwyr cynaliadwyedd a chyfarwyddwyr gweithredol byrddau iechyd.

Crynodeb o'r adborth:

- Dywedodd y rhanddeiliaid fod ganddynt ddealltwriaeth ddyfnach o arferion cynaliadwy a strategaethau lleihau gwastraff mewn gofal iechyd.
- Roedd y sesiynau hyfforddiant strwythuredig a'r gweithdai wedi rhoi i gyfranogwyr yr **wybodaeth a'r sgiliau** angenrheidiol i roi arferion cynaliadwy ar waith yn eu meysydd penodol.
- Yn ogystal â thrafod **agweddau damcaniaethol** ar gynaliadwyedd, darparodd yr addysg syniadau ymarferol am leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd mewn lleoliadau gofal iechyd.

> ***"Rwyf wedi bod yn rhan o brosiect Esiamplwyr Bevan, yn cael hyfforddiant saith gwaith dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi rhoi hwb sylweddol i fy ngwybodaeth am gynaliadwyedd yn y lleoliad clinigol ."***

- Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i **gysylltu** ag unigolion o'r un meddylfryd a rhannu arferion gorau.

> ***"Gwnaeth gweithio mewn partneriaeth mewn cynhadledd â'r Prif Swyddog Nyrsio, ymgyrch 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' a'r Coleg Nyrsio Brenhinol amlygu'r effaith sylweddol y gall nyrsio ei chael ar leihau gwastraff."***

- Dywedwyd bod y rhaglen wedi darparu cymorth a chymeradwyaeth hollbwysig ar gyfer ymdrechion cynaliadwyedd parhaus. Cafodd ei llunio i gyd-fynd â **blaenoriaethau Llywodraeth Cymru** a strategaethau gofal iechyd ehangach, gan atgyfnerthu pwysigrwydd y mentrau hyn.

> ***"Mae'r rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n' Gilydd wedi darparu cymeradwyaeth a chymorth, gan ein helpu i ddangos gwerth ein mentrau i'r Bwrdd Iechyd a'r brifysgol."***

Soniwyd yn gyson am y budd allweddol i randdeiliaid a ddeilliodd o gamau ymarferol i roi'r rhaglen ar waith. Ystyriwyd bod y dosbarth meistr, y gweithdai a'r cynadleddau yn effeithiol iawn, ac roedd digwyddiadau fel y gynhadledd GIG 75 yn cynnig cyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr, gan hwyluso trafodaethau wyneb yn wyneb am heriau ar ôl COVID. Roedd cyflawniadau nodedig y rhaglen yn cynnwys camau ymarferol megis lleihau dibyniaeth ar anaestheteg gyffredinol ar gyfer deintyddiaeth.

> ***"Y prosiect a wnaeth y gwahaniaeth mwyaf i mi oedd datblygu a chyflwyno gwasanaeth tawelyddu a chanolfan hyfforddi yng Nghaerdydd. Ein nod oedd lleihau dibyniaeth ar anaestheteg gyffredinol ar gyfer deintyddiaeth mewn ffordd sy'n fwy cost effeithiol ac ecogyfeillgar."***

Er gwaethaf ei llwyddiant, nododd rhanddeiliaid nifer o **heriau** a oedd yn wynebu'r rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfyngiadau o ran adnoddau a phwysau llwyth gwaith
- Ymwrthedd diwylliannol i newid
- Anhawster wrth rannu arferion a'u rhoi ar waith ar raddfa yn y GIG.

> ***"Er bod llawer o arferion arloesol ar waith mewn mannau yn y GIG yng Nghymru, mae gennym anhawster sylweddol wrth rannu'r arferion hyn a'u rhoi ar waith ar raddfa eang."***


Awgrymodd rhanddeiliaid **gwelliannau** hefyd. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Cymorth a chyfranogiad parhaus gan **uwch-arweinwyr** y GIG yng Nghymru
- Mwy o **ymgysylltu** a meithrin newid diwylliannol tuag at gynaliadwyedd
- Manteisio ar bartneriaethau **rhanbarthol ac ymgysylltu â** myfyrwyr i ehangu cyrhaeddiad y rhaglen
- Gwell **cyfathrebu am adnoddau a'u hygyrchedd** i fwyafu effaith.

> ***"Gallai fod yn fuddiol cynnwys nyrsys dan hyfforddiant. Maen nhw eisoes yn ymwybodol o faterion newid yn yr hinsawdd a gallan nhw weithio fel modelau rôl gan herio arferion diangen fel gorddefnyddio menig."***


# 5.2 Arolwg Gwerthuso

Cafodd yr holl gyfranogwyr a lofnododd addewid 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' eu cynnwys mewn arolwg i asesu effaith y rhaglen. Mae'r canlyniadau canlynol yn ymwneud â'r datganiadau isod.




Y prif themâu a godwyd yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid:

- **Gwell Ymwybyddiaeth o Wastraff:** Cyfran yr ymatebwyr a deimlodd fod y rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion gwastraff.
- **Cyfraniad Cadarnhaol at Waith:** Cyfran yr ymatebwyr a deimlodd fod y rhaglen wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at eu gwaith neu eu harferion gwaith.
- **Effeithiolrwydd:** Cyfran yr ymatebwyr a oedd o'r farn bod mentrau'r rhaglen yn effeithiol wrth gyflawni ei nodau (e.e. lleihau gwastraff, ymdrechion cynaliadwyedd).



# 6. Cyfleoedd a Heriau'r Rhaglen

Mae'r ail adran hon yn archwilio'r **rhwystrau a'r cyfleoedd** a nodwyd gan randdeiliaid allweddol mewn perthynas â gwastraff, yn ogystal â'r **heriau gweithredol** daethant ar eu traws wrth roi'r rhaglen ar waith. Nododd rhanddeiliaid broblemau systemig megis agweddau diwylliannol a chyfyngiadau neu gamddefnyddio adnoddau, ond roedd y rhaglen ei hun hefyd yn wynebu rhwystrau logistaidd, gan gynnwys oedi wrth recriwtio ac argaeledd data.

## 6.1 Gweithgorau

Nod y gweithgorau oedd cysylltu ag unigolion allweddol a'u cynnwys yn y rhaglen er mwyn casglu a rhannu syniadau a gwybodaeth am arferion gorau, nodi ffynonellau gwastraff a chydnabod rhwystrau a chyfleoedd am newid.

Yn ystod y gynhadledd GIG 75, cymerodd dros 50 o aelodau o weithgorau ran mewn gweithdy am wastraff er mwyn nodi materion allweddol ynghylch lleihau pecynnu a phlastigion mewn gofal iechyd. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau ymneilltuo lle cymerodd y cynadleddwyr ran mewn trafodaethau a oedd yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol hyn.

### 6.1.1 Rhwystrau

- **Canfyddiad diwylliannol** o wastraff, sydd yn aml yn ystyried bod deunyddiau'n ddiwerth unwaith mae'r pecyn wedi'i agor.
- Mae rhwystrau rheoleiddiol, yn enwedig **safonau MHRA** yn ei gwneud hi'n anodd newid pecynnu'n gyflym.
- Yn aml, mae eitemau dihaint megis sgriwiau llawfeddygol yn cael eu **gor-becynnu** oherwydd safonau profi'r diwydiant.
- Nodwyd hefyd bod arferion **caffael mewn union bryd** yn cyfrannu at or-archebu a gwaredu deunyddiau nad ydynt yn cael eu defnyddio.

- Roedd yr heriau gweithredol a nodwyd yn cynnwys **cyfathrebu gwael** am reoli gwastraff a chymhlethdod cyflwyno atebion pecynnu newydd.
- Mae **eitemau llawfeddygol heb eu defnyddio**, megis coiliau atal cenhedlu, yn cael eu taflu oherwydd gor-becynnu neu faterion caffael.

### 6.1.2 Cyfleoedd:

- Gallai **cydweithredu â rheoleiddwyr** gyflwyno pecynnu cynaliadwy megis deunyddiau bioddiraddadwy.
- Gallai addysg **llythrennedd carbon** helpu staff i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.
- Gellid lleihau gwastraff ymhellach drwy **gynnwys clinigwyr** mewn prosesau caffael i nodi pa ddeunyddiau roedd eu hangen arnynt.

## 6.2 Dosbarth Meistr Gwastraff

Gwnaeth y Dosbarth Meistr 'Lleihau Gwastraff mewn Iechyd a Gofal' dan arweiniad yr Athro Don Berwick KBE, gasglu safbwyntiau aelodau o uwch-dimau gweithredol gofal iechyd. Amlygwyd heriau a chyfleoedd strategol, gan gynnwys gweithredu ar unwaith a chyfleoedd tymor hwy mewn systemau iechyd a gofal yng Nghymru.[15]

### 6.2.1 Cyfleoedd i leihau gwastraff

- Gweithio tuag at **ddiwylliant o atebolrwydd** (gweler y pecyn cymorth Newid Ymddygiad).
- **Symleiddio prosesau**
- Gwella **integreiddio digidol** er mwyn defnyddio llai o bapur, **lleihau gwallau a symleiddio** prosesau rheoli/rhannu data.
- **Ymgysylltu ag arweinwyr a grymuso staff** i gymryd camau rhagweithiol.
- Ysgogi **newid ystyrlon a gwella effeithlonrwydd** drwy'r strategaethau hyn.

15 Comisiwn Bevan 2024, Dosbarth Meistr Lleihau Gwastraff mewn Iechyd a Gofal.

### 6.2.2 Roedd y rhwystrau i leihau gwastraff yn cynnwys:

- **Agweddau diwylliannol**
- **Bylchau cyfathrebu**
- **Cymhlethdod prosesau gofal iechyd**
- **Cyfyngiadau o ran adnoddau**
- **Atebolrwydd ac integreiddio** systemau digidol
- **Diffyg amser** ar gyfer lleihau gwastraff, **ymddygiad osgoi risg**
- **Integreiddio gwael** ar draws systemau
- Nodwyd hefyd arferion gweithio mewn seilo ac anawsterau wrth gael gafael ar ddata a'i ddefnyddio'n effeithiol.

## 6.3 Cyfleoedd / Heriau'r Rhaglen

### 6.3.1 Cyfleoedd

- **Adeiladu ar y cam cychwynnol:** darparodd y sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd a ddatblygwyd yn ystod y rhaglen sylfaen gadarn i adeiladu arni. Dylai'r cam nesaf ganolbwyntio ar gymdeithasoli'r syniadau o 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' yn ehangach, gan gynnwys y cyhoedd a chleifion mewn ymdrechion cynaliadwyedd.

- **Cryfhau a datblygu partneriaethau:** bydd ehangu partneriaethau â sefydliadau cenedlaethol allweddol, megis y Coleg Nyrsio Brenhinol, Cyngor Meddygol Cymru a Chynghrair Iechyd y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, yn helpu i fwyafu cyfranogiad yn y rhaglen a'i heffaith.

- **Mireinio a lledaenu pecynnau cymorth:** mae cyfle i fireinio a lledaenu ymhellach y pecynnau cymorth presennol megis y Pecyn Cymorth Newid Ymddygiadol a'r pecyn cymorth Eich Meddyginiaethau, eich Iechyd, gan gyflwyno adnoddau newydd fel y Pecyn Cymorth Lleihau Bagiau Plastig mewn Fferylliaeth.

- **Cyflwyno ar Raddfa Eang:** bydd integreiddio'r mentrau hyn mewn arferion gofal ac iechyd ehangach yn hanfodol.  Gallai rhaglen Mabwysiadu a Lledaenu Comisiwn Bevan gynnig potensial i gyflwyno mentrau ar raddfa eang ledled Cymru.

- **Ymgysylltu â'r cyhoedd:** mae cyfle allweddol ar gael i ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a'u hannog i ymrwymo i newid diwylliannol tuag at gynaliadwyedd, blaenoriaethu lleihau gwastraff ym mholisïau llywodraethau a systemau iechyd a gofal ac ysgogi effeithlonrwydd gwell mewn systemau iechyd a gofal.

- **Data gwaelodlin:** datblygu set graidd o ddata/ddangosyddion dibynadwy i sicrhau mentrau, cymhellion a chymariaethau effeithlon ac arferion mwy darbodus.

## 6.3.2 Heriau

Yn ogystal â'r rhwystrau a amlygwyd yn y Dosbarth Meistr Gwastraff, wynebodd y rhaglen nifer o heriau.

- **Data Gwael:** roedd diffyg data, ynghyd â data anghywir ac anghyson am wastraff, yn rhwystr i greu gwaelodlinau ystyrlon ac felly'n rhwystr i'r gallu i fesur canlyniadau'n effeithiol.

- **Dealltwriaeth gyfyngedig:** o'r cychwyn cyntaf, roedd camddealltwriaeth amlwg o'r hyn a olygwyd gan 'Wastraff' y tu hwnt i faterion gwyrdd a chynaliadwyedd. Roedd y diffyg dealltwriaeth ynghylch materion eang yn effeithio ar wastraff, aneffeithlonrwydd a chynhyrchiant isel yn cyfyngu ar y potensial am arloesi.

- **Cyfyngiadau ariannol:** mae byrddau iechyd wedi'u cyfyngu'n ariannol gan gontractau gwastraff a chaffael hirdymor, oherwydd byddai terfynu'r cytundebau hyn yn gynnar yn arwain at gostau sylweddol. Mae hyn yn cyfyngu ar hyblygrwydd systemau iechyd a gofal i fabwysiadu arferion rheoli gwastraff mwy arloesol ac atebion caffael cynaliadwy.

- **Ymwybyddiaeth y cyhoedd:** roedd dealltwriaeth annigonol o arferion cynaliadwy ymhlith y cyhoedd / cleifion a diffyg deunyddiau addysgol yn gynnar yn y rhaglen yn amharu ar ymdrechion i fabwysiadu mentrau 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' yn eang ac ar eu heffaith.

- **Amser:** mae'r heriau sy'n gysylltiedig â gwastraff yn ymestyn ymhell y tu hwnt i gwmpas y rhaglen hon. Roedd yr amserlen 24 mis yn cyfyngu ar ei chanlyniadau, ac ychwanegwyd at y cyfyngiadau hyn gan heriau recriwtio a staffio.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r rhaglen yn amlygu nifer o gyfleoedd am ddatblygiad ac effaith yn y dyfodol. I sicrhau bod potensial llawn y rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' yn cael ei wireddu ledled Cymru, mae cyfranogiad a chymorth parhaus gan arweinwyr iechyd a gofal a grwpiau sy'n cysylltu â chleifion â'r cyhoedd yn parhau'n hanfodol.

Mae'r gwaith a wnaed hyd yn hyn wedi creu sylfaen gref ar gyfer datblygu ymhellach, ehangu cynaliadwyedd, gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn y sectorau iechyd a gofal.

# 7. Canfyddiadau Allweddol y Rhaglen

Mae'r **Canfyddiadau Allweddol** a'r **argymhellion** canlyniadol a gyflwynir isod yn deillio o gyfuniad o fewnbwn gan randdeiliaid, allbynnau'r rhaglen a gwersi a ddysgwyd drwy ein cyhoeddiadau, ein rhwydweithiau, ein cydweithrediadau a'n profiadau cyffredinol. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r llwyddiannau a'r heriau a gafwyd wrth roi'r rhaglen ar waith, gan gynnig darlun cyfannol o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae cyfleoedd pellach ar gael, wedi'i lywio gan safbwyntiau mewnol ac allanol.

- Mae'n rhaid i gynaliadwyedd mewn iechyd a gofal ymestyn y tu hwnt i leihau carbon a chanolbwyntio ar wastraff yn y chwe maes er mwyn helpu i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd adnoddau, cynhyrchiant, cynaliadwyedd ariannol a gwelliannau mwy darbodus i wasanaethau. Mae mentrau yn y rhaglen hon yn ymdrin ag agweddau amrywiol ar wastraff.

- Mae arweinyddiaeth ac ymgysylltu ar bob lefel yn hanfodol i gyflawni newidiadau diwylliannol.  Mae angen rhagor o waith i adeiladu ar y datblygiadau hyd yn hyn.

- Mae'r rhwydweithiau a sefydlwyd drwy'r rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' yn parhau i fod yn hanfodol i gydweithredu, datblygu syniadau a lledaenu arfer gorau wrth fynd i'r afael â gwastraff. Bydd angen cynnal y cysylltiadau hyn i gadw'r momentwm i fynd a gwreiddio strategaethau lleihau gwastraff ymhellach.

- Mae'r pecynnau cymorth a ddatblygwyd gan y rhaglen wedi dangos addewid mewn sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr cynnar, gan integreiddio cynaliadwyedd yn effeithiol mewn arferion beunyddiol a chynllunio strategol.

- Mae data anghyson ac anhygyrch wedi amharu ar ymdrechion i werthuso canlyniadau'r cynlluniau yn llawn. Byddai cofnodion ac arferion data mwy cyson a chydnaws o gymorth mawr i fentrau yn y dyfodol.

- Mae prosiectau peilot llwyddiannus, megis y cynllun Ailgylchu Cymhorthion Symudedd, wedi dangos eu potensial i fynd i'r afael â gwastraff a'r achos i'w mabwysiadu'n fwy eang yn y GIG.

- Mae ymwrthedd diwylliannol a phwysau gwaith yn parhau'n rhwystrau sylweddol a pharhaus i roi mentrau lleihau gwastraff ar waith.  Mae'r Pecynnau Cymorth Ymddygiadol yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â'r rhain.

- Bydd angen gwell cymhellion, atebolrwydd, ymgysylltu ac adnoddau i oresgyn rhwystrau.

# 7.1 Argymhellion

Gan adeiladu ar y canfyddiadau, y profiad a'r cyfleoedd a gyflwynwyd gan y rhaglen 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd', bydd yr argymhellion canlynol yn hanfodol i ysgogi ymdrechion lleihau gwastraff a chynaliadwyedd a'u hymgorffori'n effeithiol yn sectorau iechyd a gofal Cymru.

1. Nodi cyfleoedd ac adnoddau i barhau i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol ac ar draws byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a gofal cymdeithasol.
2. Datblygu rhaglen ymwybyddiaeth ar gyfer y cyhoedd a chleifion, gan ymateb i'w hadborth a chysondeb ledled Cymru i annog eu cefnogaeth a'u syniadau.
3. Annog ymdrechion i ddatblygu, mabwysiadu a lledaenu arferion da a rhoi'r offer ar waith yn ehangach ledled Cymru.
4. Datblygu a defnyddio setiau data cyson i lywio cynllunio a hwyluso cymariaethau ar gyfer cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd a rhannu arfer gorau.
5. Monitro, gwerthuso a chyfleu cyfleoedd i leihau gwastraff, gan sicrhau bod sefydliadau iechyd a gofal yn cael eu dwyn i gyfrif.
6. Sicrhau bod gofal iechyd darbodus a gwerth gorau wedi'u gwreiddio yn yr holl bolisïau ac arferion iechyd a gofal.

# 8. Casgliadau

Mae'r rhaglen **'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'** wedi llwyddo i amlygu mathau niferus o wastraff sy'n cyfrannu at straen a chyfyngiadau ariannol parhaus sy'n faich ar y sectorau iechyd a gofal. Drwy'r fenter hon, rydym wedi creu'r cyd-destun a'r rhesymeg ar gyfer newid, gan gynyddu ymwybyddiaeth pobl ac ymgysylltu â nhw am yr angen brys am leihau gwastraff a gwella cynaliadwyedd. Rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau, gan ennyn diddordeb a chynyddu ymwybyddiaeth ar draws y sector.

Er gwaethaf y cynnydd a wnaed, mae heriau sylweddol o hyd i fabwysiadu ac ymgorffori'n llawn bolisïau, arferion a diwylliant lleihau gwastraff yn y system ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain. Mae rhai o'r offer a'r fframweithiau a ddatblygwyd gan y rhaglen, megis y pecynnau cymorth ymddygiadau, eisoes yn cael eu defnyddio ond bydd angen cymorth i'w mabwysiadu'n ehangach. Datblygwyd fframwaith ar gyfer gwerthuso parhaus, ynghyd â data gwaelodlin i lywio polisi ac ymarfer yn y dyfodol. Mae angen gwneud rhagor ac yn gyflymach i sicrhau bod yr ymdrechion hyn yn arwain at newid helaeth hirdymor. Mae'r rhaglen **Mabwysiadu a Lledaenu** yn cynnig y potensial i sicrhau bod y rhain yn cael eu cefnogi er mwyn lledaenu a mabwysiadau ar raddfa ehangach offer ac adnoddau ymarferol sy'n hwyluso integreiddio ymhellach mewn polisïau iechyd a gofal.

Mae'r rhaglen **'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'** wedi helpu i greu partneriaethau a rhwydweithiau cydweithredol a fydd yn hollbwysig wrth ysgogi gweithredu yn y dyfodol. Mae ein gwaith hefyd wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer datblygu syniadau arloesol sy'n lleihau gwastraff.

Mae problem gwastraff yn ymestyn ymhell y tu hwnt i gwmpas y rhaglen 24 mis hon - rydym megis dechrau mynd i'r afael â hi. Mae **'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'** yn rhybudd llym bod angen camau gweithredu mwy penderfynol. Mae'n hanfodol parhau i adeiladu ar y momentwm a grëwyd hyd yn hyn i ysgogi trawsnewid systematig go iawn, yn ogystal â'r defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r gweithlu iechyd a gofal, mae'n rhaid i ni gynnwys y cyhoedd a chleifion hefyd i ysbrydoli mudiad ehangach dros newid.

Ar y cyd â'n harbenigwyr o fri rhyngwladol, rydym wedi treialu, profi a datblygu rhaglen waith i godi ymwybyddiaeth, ymgysylltu â phobl, wedi datblygu offer a darparu argymhellion clir i weithredu arnynt. Er ein bod wedi gweld newidiadau cadarnhaol mewn agweddau yn y gweithlu iechyd a gofal, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod y gwersi a'r offer a ddatblygwyd drwy **'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'** yn cael eu gwreiddio'n llawn mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Credwn y bydd cyflawniadau'r rhaglen hon yn helpu i addysgu a sbarduno pobl Cymru ymhellach, gan wella ansawdd gofal wrth sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithlon ac atgyfnerthu ymddiriedaeth yn y system iechyd a gofal. Bydd y rhaglen hefyd yn llywio rhagor o bolisïau ac arferion.

Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn dysgu o'r gwaith hwn (**byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru**) ac yn rhoi ar waith wersi ac argymhellion y rhaglen **'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd'**. Mae'n hanfodol blaenoriaethu lleihau gwastraff a chynaliadwyedd ym mhob proses benderfynu a llunio polisi. Ni allwn fforddio colli'r cynnydd a wnaed - byddai gwneud hyn wir yn wastraff adnoddau, ymdrech a gwersi a ddysgwyd drwy'r rhaglen drawsnewidiol hon.

> ***Un o'r rhwystrau sylweddol i newid yw bod pobl yn derbyn y status quo, hyd yn oed pan nad yw'n arwain at y canlyniadau dymunol. I oresgyn y rhwystr hwn, mae angen cydnabod bod rhaid i ni fod yn fodlon asesu ein systemau presennol yn feirniadol a'u hailgynllunio er mwyn cyflawni canlyniadau gwahanol a gwell. Mae ymwrthedd i newid yn deillio'n aml o fod yn gysurus gyda phrosesau cyfarwydd ac ofn yr anhysbys, ond mae croesawu newid yn hanfodol ar gyfer gwelliant a chynnydd.***
>
> **Don Berwick**

# Atodiad

## Prosiectau Enghreifftiol - Carfan 8

| **Teitl y Prosiect:** | **Sefydliad:** |
|---|---|
| Early Intervention Persistent Pain Management Practitioner - Primary Care: https://bevancommission.org/early-intervention-persistent-pain-management-practitioner-primary-care/ | Red Kite Health Solutions CIC / Powys |
| Developing and delivering a Sedation Service and Training Centre, University Dental Hospital - Bevan Commission | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Batch manufacture of OPAT by Pharmacy Technical Services: https://bevancommission.org/batch-manufacture-of-opat-products-by-pharmacy-technical-services/ | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Enabling patients in Wales with haemochromatosis to donate their blood: https://bevancommission.org/enabling-patients-in-wales-with-haemochromatosis-to-donate-blood1/ | Ymddiriedolaeth y GIG Felindre |
| Establishing enhanced community gynaecology services in a rural healthcare setting in Wales<br><br>https://bevancommission.org/establishing-enhanced-community-gynaecology-services-in-a-rural-healthcare-setting-wales/ | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Eliminating WOORST (Waste Originating from Orthopaedic Surgery for Trauma). Novel model for Day case surgery: https://bevancommission.org/eliminating-woorstwaste-originating-from-orthopaedic-surgery-for-trauma-novel-model-for-day-case-surgery/ | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Using One Health approaches to reduce pharmaceutical & healthcare waste: https://bevancommission.org/using-one-health-approaches-to-reduce-pharmaceutical-and-healthcare-waste/ | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Improving patient safety and reducing medicines waste through cluster-based post hospital discharge medication reconciliation: https://bevancommission.org/improving-patient-safety-and-reducing-medicines-waste-through-cluster-based-post-hospital-discharge-medication-reconciliation/ | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Improving Asthma Management in Primary School Children in Pembrokeshire: https://bevancommission.org/improving-asthma-management-in-primary-school-children-in-pembrokeshire/ | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Admissions to Discharge the Medicine Story: https://bevancommission.org/admissions-to-discharge-the-medicine-story/ | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

# Cyhoeddiadau ac Adnoddau 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd

What a Waste! - Comisiwn Bevan

Astudiaethau Achos Rhyngwladol: Yn darparu gwybodaeth am fentrau lleihau gwastraff byd-eang, gan arddangos yr arferion gorau y gellir eu mabwysiadu yn system gofal iechyd Cymru.

Map o Randdeiliaid: Map rhyngweithiol yn cynnwys yr holl wybodaeth gysylltu, wedi'i chategoreiddio fesul sefydliad/proffesiwn.

Unpacking Waste Data in Healthcare – The Case for Wales: Mae'n archwilio'r heriau a'r cyfleoedd wrth gasglu a defnyddio data am wastraff mewn gofal iechyd, gan gynnig ffyrdd mwy effeithiol o reoli data.

Measuring Waste in Healthcare – Guideline to Baselines and Indicators: Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnig canllaw cynhwysfawr i sefydlu gwaelodlinau data a dangosyddion am fesur gwastraff mewn lleoliadau gofal iechyd, gan ddarparu fframwaith ar gyfer dulliau cyson o gasglu a gwerthuso data.

Astudiaethau Achos Cymru Gyfan: Yn amlygu prosiectau cynaliadwyedd llwyddiannus yng Nghymru, gan gynnig enghreifftiau manwl o sut mae ymdrechion lleihau gwastraff wedi cael eu rhoi ar waith a'u mabwysiadu'n ehangach ar draws byrddau iechyd.

Adroddiad ar y Dosbarth Meistr Gwastraff - yr Athro Don Berwick: Adroddiad am wersi o ddosbarth meistr lleihau gwastraff a arweiniwyd gan yr Athro Don Berwick, gan ganolbwyntio ar strategaethau lleihau gwastraff mewn gofal iechyd drwy arweinyddiaeth ac arloesi.

Dosbarth Meistr Lleihau Gwastraff mewn Iechyd a Gofal - Safbwyntiau Uwch-arweinwyr: Yn amlygu safbwyntiau uwch-arweinwyr gofal iechyd ynghylch yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â lleihau gwastraff, gan gynnwys argymhellion gweithredu ar gyfer y GIG.

Pecyn Cymorth Newid Ymddygiad Plastigion Untro: Pecyn cymorth sy'n canolbwyntio ar blastigion untro mewn gofal iechyd, gan gynnig strategaethau ac adnoddau i hyrwyddo arferion cynaliadwy a lleihau dibyniaeth ar blastig.

Pecyn Cymorth Newid Ymddygiad (Generig) : Pecyn cymorth amlbwrpas sy'n darparu canllawiau i ysgogi newid ymddygiad ar draws gofal iechyd. Gellir ei addasu ar gyfer amrywiaeth o fentrau cynaliadwyedd.

Pecyn Cymorth Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd: Pecyn cymorth sydd â'r nod o wella cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau cymryd meddyginiaethau a lleihau gwastraff fferyllol. Mae'n cynnig adnoddau ymarferol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd, gan fabwysiadu ymagwedd hyfforddi'r hyfforddwr i roi i staff y sgiliau i rannu arferion gorau ag eraill.

Pecyn Cymorth Lleihau Bagiau Plastig: Pecyn cymorth a ddatblygwyd i leihau'r defnydd o fagiau plastig mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'n darparu canllawiau, arferion gorau ac argymhellion y gellir eu rhoi ar waith er mwyn lleihau dibyniaeth ar fagiau plastig.

Adnodd Ailgylchu ac Ailddefnyddio Cymhorthion Symudedd: Mae'r fenter 'Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd' wedi cydweithio â phartneriaid allweddol i gynhyrchu adnodd sydd â'r nod o hyrwyddo ailgylchu ac ailddefnyddio cymhorthion symudedd ar ôl adferiad cleifion.

Comisiwn
Bevan
Commission

School of Management,
Swansea University Bay Campus,
Fabian Way, Swansea SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
+44 (0)1792 604 630